

Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC)

Enw'r Polisi neu'r Arfer	Polisi Cludiant Gofal Cymdeithasol (diwygiwyd 2016)		
Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y Polisi neu'r Arfer	Claire Lister		
Enw'r swyddog (ion) sy'n llenwi'r ffurflen asesu effaith	Ramona Murray / Marian Hankin / Neil Anthony / Simon Griffiths		
Gwasanaeth	Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	Dyddiad yr Asesiad	17/11/2016

Llenwyd yr AEC gan:		Cytunwyd ar yr AEC gan y Pennaeth Gwasanaeth:	
Dyddiad	17/11/2016	Dyddiad	
Enw(au)	Ramona Murray / Marian Hankin / Neil Anthony / Simon Griffiths	Enw	
Llofnod(ion)		Llofnod	

CAM 1 – Nodwch Brif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Arfer

1. Beth sy'n cael ei asesu? (**Cliciwch ddwywaith ar y bocs a dewiswch 'checked'** i roi croes X)

- Polisiâu neu arferion newydd a diwygiedig
- Trefnau newydd (sy'n addasu arferion darparu gwasanaeth neu gyflogaeth)
- Cynigion adolygu neu ad-drefnu gwasanaeth sy'n effeithio ar y gymuned ac/neu staff
- Cynigion effeithlonrwydd neu arbed
- Gosod dyraniadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd
- Penderfyniadau yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach
- Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu fynediad i'r amgylchedd adeiledig, ee, gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol
- Arall, eglurwch yn y bocs isod :

2. Beth yw nodau ac amcanion cyffredinol y polisi neu'r arfer?

Mae'r polisi yn ceisio darparu proses gyson a chadarn ar gyfer defnyddio dull dibynadwy, teg a chyfiawn i asesu cymhwysedd ar gyfer cymorth gyda chlodiant.

Cymhwyso egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i'r broses hon a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol newydd mewn perthynas â'r asesiad, cymhwysedd a diwallu anghenion; tra'n ystyried pwysigrwydd hyrwyddo Annibyniaeth Dinasyddion ac ystyried cynaliadwyedd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol sy'n cael eu darparu yn y dyfodol.

Nod y polisi yw sicrhau bod Dinasyddion a gafodd eu hasesu fel rhai cymwys i dderbyn cymorth gyda chlodiant, yn cael gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion.

3. Pwy mae'r polisi neu'r arfer yn bwriadu ei helpu neu elwa (cyfranogion)?

Yr holl Ddinasyddion sydd ag anghenion cymorth gyda chlodiant i dderbyn mynediad i Wasanaethau, sy'n cael ei ddarparu i ddiwallu eu hanghenion cymwys a aseswyd. Bydd hyn yn cynnwys Dinasyddion / Defnyddwyr Gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol

4. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol neu gymuned gyda buddiannau cyffredin?

Fforwm Cyswllt Anableddau Dysgu
Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu
Rhwydwaith Cyfranogaeth Conwy
Cyng. Wyn Elis Jones, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Plant, Addysg a Sgiliau
Cyng Sue Lloyd Williams, Aelod Cabinet dros Dai, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

CAM 2 – Ystyried Gwybodaeth Bresennol a Beth Mae Hyn yn ei ddweud Wrthyich

Wrth lenwi'r adran hon, mae angen i chi ystyried os oes gennych wybodaeth ddigonol er mwyn llenwi eich AEC, neu a oes angen i chi gynnal cyfnod ymgysylltu/ymgynghori cyn parhau. Mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r broses AEC yn eich gorchymyn i **gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a ddiogelir a gyda'r rhai sydd â diddordeb yn y modd rydych yn cyflawni eich swyddogaethau.** Mae'n rhaid i hyn fod yn gymesur â'r polisi neu'r arfer y cynhelir Asesiad Effaith Cydraddoldeb arno. Efallai eich bod eisoes wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar yn benodol ar y polisi neu'r arfer hwn. Efallai bod rhai o swyddogion eraill CBSC wedi gwneud gwaith ymgysylltu a fydd yn berthnasol i'r AEC hwn a gallwch adolygu'r Gronfa Ddata Cynnwys y Gymuned i ddarganfod pa weithgarwch ymgysylltu sydd wedi digwydd yng Nghonwy a phenderfynu a yw hyn yn berthnasol. Os nad oes unrhyw wybodaeth o'ch ymgysylltu blaenorol yn berthnasol i'r AEC, neu ddim ond ychydig iawn ohono, dylech ystyried gwneud rhywfaint o waith ymgysylltu gyda'ch cyfranogion a gyda grwpiau o gynrychiolwyr perthnasol i sicrhau nad ydych chi, heb yn wybod i chi, yn anwybyddu anghenion pob grŵp a ddiogelir.

5. Beth ydych chi eisoes yn ei wybod am yr effaith ar bob nodwedd a ddiogelir o'ch profiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol neu ymgysylltu neu ymgynghori blaenorol? Gallech gyfeirio at y Ffurflen Sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol a'r Gronfa Ddata Cynnwys y Gymuned.

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer fesul nodwedd a ddiogelwyd
Hil	<p>Y ffynhonnell ddata orau ar gyfer ethnigrwydd ar lefel Awdurdod Lleol yw Cyfrifiad 2011. Gwyn Prydeinig yw'r grŵp mwyaf o bell ffordd ac mae'r gyfran yn debyg i'r hyn sydd o fewn cyfanswm poblogaeth y ffigwr Cenedlaethol.</p> <p>Mae Gwyn Prydeinig yn ffurfio 95.4% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ganran uwch nag ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd (93.2%).</p> <p>Ar hyn o bryd mae 2 Ddefnyddiwr Gwasanaeth yn derbyn cludiant mewnol o Grwpiau Ethnig eraill (nad ydynt yn Wyn Prydeinig). Mae'r mathau o faterion sydd angen eu hystyried, yn ddewisiadau yn seiliedig ar gefndiroedd ethnig / credoau. Mae'r broses gymhwyso ac asesu newydd, sydd wedi'i hamlinellu yn y Polisi diwygiedig, ac yn seiliedig ar ofynion Deddfwriaethol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn sicrhau bod yr anghenion amrywiol hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses asesu.</p>
Anabledd	<p>Er nad oes ffynhonnell ddata gynhwysfawr ar gyfer Anabledd, mae Cyfrifiad 2011 yn darparu gwybodaeth am salwch cyfyngus hirdymor a Gofalwyr di-dâl yng Nghonwy. Mae cofrestr o bobl â nam Corfforol a /neu Synhwyrol a phobl gydag Anableddau Dysgu. Fodd bynnag, dim ond y rhai sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n defnyddio Gwasanaethau'r Cyngor yw'r rhain.</p> <p>Mae pobl gydag anableddau yn wynebu mwy o anawsterau wrth geisio derbyn gwasanaethau, er enghraifft, oherwydd argaeledd cludiant cyhoeddus, hygyrchedd y cludiant hwnnw; efallai na fydd unigolyn gydag anableddau dysgu yn gallu defnyddio cludiant cyhoeddus oherwydd ymddygiad a allai beri risg iddynt hwy neu eraill; efallai na fydd unigolyn hŷn yn gallu cyrraedd eu harhosfan bws lleol oherwydd gostyngiad mewn symudedd ac ati.</p> <p>Ar hyn o bryd mae 153 o bobl gydag Anabledd yn cael eu cefnogi gyda chludiant; naill ai cludiant mewnol; tacsis wedi'u comisiynu; neu daliadau i asiantaethau annibynnol i ddarparu cludiant i'w gwasanaethau dydd.</p>
Rhyw	

	<p>Amcangyfrifwyd maint y boblogaeth breswyl ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar 30 Mehefin 2014 i fod yn 116,300 o bobl. Mae ychydig dros hanner y rhain yn ferched. Mae data poblogaeth sy'n cynnwys dadansoddiad yn ôl rhyw yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn ac ar gael ar lefel ardal fechan. Mae modd defnyddio'r data'n helaeth fel enwadur ar gyfer sawl dangosydd, gan ei fod yn ddata cadarn gyda statws swyddogol Ystadegau Cenedlaethol.</p> <p>Mae 51.5% o boblogaeth Conwy yn fenywod, o gymharu â 48.5% o wrywod.</p> <p>Ar hyn o bryd mae 102 o fenywod a 83 o wrywod yn cael eu cefnogi gyda chludiant; naill ai cludiant mewnol; tacsis wedi'u comisiynu; neu daliadau i asiantaethau annibynnol i ddarparu cludiant i'w gwasanaethau dydd.</p>
Oed	<p>Yr oed canolrifol (yr oedran pan fo hanner y boblogaeth yn hŷn a'r hanner arall yn iau) ym Mwrdeistref Sirol Conwy yw 47 oed. Y canolrif oedran presennol ar gyfer Cymru yw 41 a 38 ar gyfer y DU. Mae hyn yn golygu bod ein poblogaeth yn sylweddol hŷn na phoblogaeth Cymru a'r DU. Mae'r oedran canolrifol wedi cynyddu o 44 i 47 o flynyddoedd dros y ddegawd ddiwethaf.</p> <p>Mae'r rhai sy'n 16-64 yn ffurfio 57.5% o boblogaeth Conwy, dros 65 yn 26.2% a dros 85 yn 4%.</p> <p>Mae pobl hŷn yn wynebu mwy o anawsterau wrth geisio derbyn gwasanaethau, er enghraifft, oherwydd argaeledd cludiant cyhoeddus, hygyrchedd y cludiant hwnnw; efallai na fydd unigolyn hŷn yn gallu cyrraedd eu harhosfan bws lleol oherwydd gostyngiad mewn symudedd ac ati.</p> <p>Ar hyn o bryd mae gennym 46 o bobl hŷn (efallai bod unigolion ychwanegol o fewn y ffigur Anableddau sydd hefyd o dan gategori pobl hŷn) yn cael cefnogaeth gyda chludiant; naill ai cludiant mewnol; tacsis wedi'u comisiynu; neu daliadau i asiantaeth annibynnol i ddarparu cludiant i'w gwasanaeth dydd.</p>
Crefydd a Chred	<p>Yr unig ffynhonnell ddata ddibynadwy am ymlyniad crefyddol yw Cyfrifiad 2011. Dengys y data mai 'Cristnogaeth' yw'r brif grefydd yng Nghonwy, gan ffurfio 64.7%, a'r nesaf yw 'dim crefydd' (26.1%).</p> <p>Pethau sydd angen eu hystyried o bosib, yn seiliedig ar Grefydd neu Gred, yw er enghraifft efallai nad</p>

	<p>yw Dynes Fwslimaidd eisiau ei chludo gan yrrwr tacsï gwrywaidd. Fodd bynnag, byddai'r ystyriaethau hyn yn cael eu trafod gyda'r Dinesydd yn ystod y broses asesu a gellir ystyried dewisiadau amgen a'u cyd-gynhyrchu gyda'r Defnyddwyr Gwasanaeth.</p>
Tueddfryd Rhywiol	<p>Nid oes ystadegau am hunaniaeth rywiol ar gael ar lefel Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r Arolwg Integredig o Gartrefi sy'n cael ei gynhyrchu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynhyrchu amcangyfrifon ar lefel Cymru gyfan, ond ni chaiff data ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy ei ryddhau gan eu bod yn seiliedig ar sampl ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhai cadarn (mae maint y sampl yn rhy fach i fod yn gynrychioliadol).</p> <p>Mae hwn yn faes sensitif. Ni fydd rhai unigolion yn fodlon rhannu gwybodaeth am eu hunaniaeth rywiol a gall cynnwys cwestiynau am hyn atal pobl rhag ateb arolygon neu gymryd rhan mewn ymgynghoriad. Fodd bynnag, pe bai'n berthnasol byddai'n cael ei drafod fesul achos ac fel rhan o'r broses asesu.</p>
Ail-alinio Rhyw	<p>Nid oes modd darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r unigolion sy'n derbyn gwasanaethau ar hyn o bryd sydd wedi ail-alinio eu rhyw ac er y gall fod yn berthnasol i'r polisi, byddai'n cael ei drafod yn unigol ac fel rhan o'r broses asesu.</p> <p>Does dim data am bobl drawsrywiol ar gael ar hyn o bryd ar lefel awdurdod unedol neu ar lefel genedlaethol.</p>
Priodas a Phartneriaeth Sifil	<p>Nid oes modd darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r unigolion sy'n derbyn gwasanaethau ar hyn o bryd sydd wedi priodi neu mewn Partneriaeth Sifil ac er y gall fod yn berthnasol i'r polisi, byddai'n cael ei drafod yn unigol ac fel rhan o'r broses asesu.</p>
Beichiogrwydd a Mamolaeth	<p>Nid oes modd darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r unigolion sy'n derbyn gwasanaethau ar hyn o bryd sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth ac er y gall fod yn berthnasol i'r polisi, byddai'n cael ei</p>

	drafod yn unigol ac fel rhan o'r broses asesu.
Y Gymraeg	<p>Cyfrifiad 2011 yw'r ffynhonnell ddata fwyaf dibynadwy a manwl ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae'n nodi bod 27.4% o'r boblogaeth sy'n 3 oed neu'n hŷn yn siaradwyr Cymraeg – sy'n sylweddol uwch na ffigur Cymru gyfan, sef 19.0%.</p> <p>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y mae'r Polisi hwn yn seiliedig arni, yn atgyfnerthu'r angen i Ddinasyddion gael cynnig gwasanaeth yn eu dewis iaith. Mae'r cysyniad o 'Gynnig Gweithredol' mewn perthynas â Safonau'r Iaith Gymraeg yn berthnasol hefyd, byddai hyn yn cael ei drafod yn unigol fel rhan o'r broses asesu.</p>
Arall (nodwch)	Amh.

6. Crynhowch y data atodol perthnasol, ymchwil a'r wybodaeth rheoli perfformiad sydd eisoes gennych:

Data / Gwybodaeth	Esiamplau
<p>Sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Cychwynnol Bwletin Ymchwil Ystadegau Cydraddoldeb – Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol (Ebrill 2015) Cynllun Cydraddoldeb Strategol Conwy 2016-2020 Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth</p>	<p>Sgrinio AEC Cychwynnol Cwynion Canmoliaeth Data Defnyddwyr Gwasanaeth Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth Arolygon neu Archwiliadau</p>

Ymchwil neu Wybodaeth Gymharol	Esiamplau
Data cyfrifiad 2011 Swyddfa Ystadegau Gwladol Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â Chludiant gan Awdurdodau Lleol eraill Pa mor deg yw Cymru?	Arolygon Defnyddwyr Gwasanaeth Astudiaethau gan adrannau'r Llywodraeth neu gyrff proffesiynol Data'r Cyfrifiad Prosiectau ac ymchwil ar sail gwasanaeth Pa mor deg yw Cymru (data'r EHRC)

7. Ydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i Ymgysylltu fel y disgrifiwyd ar ddechrau'r adran hon ac ydych chi'n ddigon gwybodus i fwrw ymlaen?

Ydw Nac ydw **(rhowch groes fel sy'n briodol X)** Os Ydych, ewch ymlaen i Gam 3

Os Nad ydych, efallai yr hoffech ystyried cael saib rŵan er mwyn gwneud eich gweithgarwch ymgysylltu (a dylech eu hychwanegu i'ch cynllun gweithredu - Cam 6). Dylech ymgorffori unrhyw wybodaeth a gawsoch o'r gweithgarwch ychwanegol hwn yn y bocs isod a nodi beth oedd y canfyddiadau allweddol:

CAM 3 – Caffael a Phartneriaethau

Mae Dyletswydd Gyffredinol y sector cyhoeddus yn golygu bod angen i bob awdurdod cyhoeddus ystyried anghenion gwahanol grwpiau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol i sefydliadau sector cyhoeddus sy'n darparu swyddogaeth gyhoeddus ar ein rhan ac mae angen i ni sicrhau bod y sefydliadau hynny'n arfer y swyddogaethau hynny drwy sicrhau bod ein trefniadau caffael a monitro'n cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.

8. A fydd y polisi neu'r arfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr mewn partneriaeth â sefydliad(au) arall/eraill?

Bydd Na fydd (*rhowch groes fel sy'n briodol X*)

Os na fydd, ewch ymlaen i Gam 4

9. Os Bydd, sut byddwch chi'n cydymffurfio â Deddfwriaeth Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a'r Iaith Gymraeg?
Meddyliwch am:

Caffael

- Gosod disgwyliadau clir o ran cydraddoldeb yn y dogfennau Tendro a Manylebau
- Ar be seiliwyd eich penderfyniadau yn y broses ddyfarnu
- Bod cymalau'r contract yn cynnwys gofynion cydraddoldeb deddfwriaethol
- Mae mesurau Perfformiad a Monitro wedi'u cynnwys i fonitro cydymffurfiaeth

Partneriaethau

Pwy sy'n gyfrifol am:

- Fonitro Cydraddoldeb data perthnasol
- Aseiad Effaith Cydraddoldeb
- Cyflawni camau gweithredu'r AEC
- Sicrhau bod pob partner yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r iaith Gymraeg

Amh

CAM 4 – Aseu'r Effaith

10. Oes unrhyw dystiolaeth o ddefnydd neu fodlonrwydd uwch neu is gan unrhyw grŵp(iau), ac os felly, sut gaiff hyn ei egluro?

Bydd y polisi yn effeithio ar yr holl grwpiau gan y bydd yn berthnasol i'r holl oedolion sy'n cael eu hasesu fel rhai sy'n gymwys ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, sydd efallai angen cludiant i dderbyn y gwasanaethau hynny. Bydd unrhyw fater unigol gan gynnwys y rhai â nodweddion a ddiogelir sy'n cael effaith ar allu unigolyn i gyrraedd y gwasanaethau yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses. Diben y polisi yw atal anfantais h.y. os nad yw unigolyn yn gallu defnyddio eu hadnoddau eu hunain mae llwybr sy'n fwy eglur i gael cymorth nag o'r blaen. Fodd bynnag, pobl gydag anabledau a phobl hŷn sy'n derbyn cefnogaeth gyda chludiant yn bennaf. Mae hyn oherwydd mai dyma'r grwpiau sy'n derbyn darpariaeth gwasanaethau dydd a chefnogaeth gymunedol yn bennaf.

11. A yw daearyddiaeth neu ddemograffeg unrhyw grŵp yn datgelu unrhyw beth?

Mae cyfran sylweddol uwch o'r boblogaeth yn byw yn yr ardal arfordirol lle bo cludiant cyhoeddus yn well. Bydd cysylltiadau cludiant yn yr ardal wledig yn cael effaith ar allu unigolyn i ddefnyddio eu hadnoddau cymunedol a chynnal eu hannibyniaeth o gefnogaeth a reolir sy'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod drwy deithio ar gludiant cyhoeddus. Diben y polisi yw peidio â chyflwyno anfantais i unrhyw unigolyn lle bynnag y byddant yn byw. Os nad yw unigolyn yn gallu defnyddio eu hadnoddau eu hunain mae llwybr sy'n fwy eglur na'r un blaenorol o ran sut i gael cymorth, sy'n seiliedig ar y gofynion statudol ar gyfer aseu / cymhwysedd a diwallu anghenion a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y dull pedwar cam ar gyfer aseu yn y polisi yn lliniaru unrhyw beryglon o effaith andwyol, yn enwedig mewn perthynas â phobl gydag anabledau a phobl hŷn.

12. A yw unrhyw reolau neu ofynion neu'r modd y cyflawnir polisi neu arfer yn atal unrhyw grwpiau rhag defnyddio neu gael mynediad, neu'n gostwng tebygolrwydd hynny, neu a oes unrhyw rwystrau eraill yn cael eu creu iddynt?

Ee: yn sgil incwm cyfyngedig, lleoliad, amser darparu, mynediad i adeiladau, gwybodaeth neu iaith, rheolau cymhwyso, cod gwisg, materion diwylliannol

Diben y polisi yw peidio â chreu anfantais h.y. os nad yw unigolyn yn gallu defnyddio eu hadnoddau eu hunain mae llwybr sy'n fwy eglur na'r un blaenorol o ran sut i gael cymorth, sy'n seiliedig ar y gofynion statudol ar gyfer aseu / cymhwysedd a diwallu anghenion a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y dull pedwar cam ar gyfer aseu yn y polisi yn lliniaru unrhyw beryglon o effaith andwyol, yn enwedig mewn perthynas â phobl gydag anabledau a phobl hŷn.

13. A ellir cyfiawnhau unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn ar sail gwella cyfleoedd cyfartal neu feithrin perthnasau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rhai nad ydynt yn gwneud?

Fel yr uchod

14. A yw unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon?

Ydi Nac ydi Ddim yn siŵr
(rhowch groes fel sy'n briodol X)

Os mai eich ateb yw Ydi neu Ddim yn siŵr, nodwch ar y tabl isod, pa grŵp(iau) a ddiogelir y mae'n berthnasol iddynt ac os yw'n bosibl egluro pam (gan gynnwys effaith neu effeithiau tebygol y newid bwriedig hwn):

Hil	Grwpiau Lleiafrif Ethnig Du Sipsiwn / Teithwyr Iaith
Anabledd	Symudedd Dehurwydd Dall neu nam ar y golwg Byddar neu nam ar y clyw Iechyd Meddwl Anableddau Dysgu
Rhyw	Dynion Merched
Oed	Pobl Hŷn Plant Pobl Ifanc
Crefydd a Chred	Cymunedau ffydd
Tueddfryd Rhywiol	Hoyw Lesbiad Deurywiol Heterorywiol

Ail-alinio Rhywedd	Unigolyn sy'n bwriadu, yn dechrau neu wedi newid ei rywedd neu ei rhywedd
Priodas a Phartneriaeth Sifil	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Hawliau Dynol	Hawl i Addysg, Bywyd Preifat a Theuluol, Diogelu eiddo, ac ati
Cymunedau Cymraeg eu hiaith	
Grwpiau neu gymunedau eraill wedi'u heithrio yn gymdeithasol (nodwch)	

15. Os mai Na oedd eich ateb i Gwestiwn 14, a yw'r rhwystrau a'r cyfyngiadau yn gyfystyr â thriniaeth wahaniaethol i grwpiau penodol?

Ydynt Nac ydynt Ddim yn siŵr
(rhowch groes fel sy'n briodol X)

16. Os mai eich ateb i Gwestiwn 15 oedd Ydynt neu Ddim yn siŵr, rhowch fanylion yn y bocs isod ac eglurwch pam

Ni fyddai'r Awdurdod Lleol yn newid Cynllun Gofal a Chymorth presennol y Dinesydd heb gynnal ailasesiad. Pan fo materion cludiant yn berthnasol, byddai'r Asesydd yn defnyddio'r dull 4 cam i asesu anghenion cludiant (Atodiad 1 y Polisi).

Felly bydd y polisi'n cael ei weithredu fesul achos. Ym mhob achos sy'n cynnwys newid mewn perthynas â chymorth gyda chludiant, bydd yr Awdurdod Lleol yn diogelu eu darpariaeth gwasanaeth am gyfnod a gytunir fesul achos am hyd at uchafswm o 12 mis. Mae hyn oherwydd y bydd amgylchiadau unigol yn amrywio ac nid yw'r Awdurdod Lleol yn dymuno cynnal dibyniaeth pan fo cyfle i gefnogi Dinesydd i fod yn annibynnol mewn cyfnod llai.

17. Oes digon o wybodaeth gennych i wneud penderfyniad gwybodus?

Oes Nac oes **(rhowch groes fel sy'n briodol X)**

Os mai eich ateb oedd Oes, cyfiawnhewch hyn:

Mae Data'r cyfrifiad, Gwybodaeth Lefel Leol ac Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth drwy ymgysylltiad wedi'u hystyried.

Mae'r Polisi yn seiliedig ar ofynion Deddfwriaethol o dan nawdd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda dyletswydd i'r Awdurdodau Lleol ail-werthuso'r modd yr ydym yn asesu cymhwysedd a diwallu anghenion, ynghyd â darparu Canlyniadau Lles Personol i'n Dinasyddion.

Os mai eich ateb oedd Nac oes, pa wybodaeth ydych chi ei hangen am grwpiau a ddiogelir?

Amh

18. Oes modd cael yr wybodaeth sydd ei hangen yn sydyn ac yn hawdd, neu a ddylid cynnwys casglu data yn y cynllun gweithredu? Rhowch y manylion isod:

Amh

CAM 5 – Delio ag Effaith Niweidiol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Arfer

Yn yr adran hon, byddwch yn ystyried a oes unrhyw fesurau i leihau neu ddileu unrhyw effaith negyddol. Dylech hefyd archwilio dulliau eraill o gyflawni'r un nod ac / neu ddulliau gwahanol o ddarparu gwasanaeth i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau.

19. Pa fesurau fedrwch chi eu cyflwyno i'r polisi neu'r arfer a allai leihau neu ddileu unrhyw effaith neu anfantais anghyfreithlon?

Diben y polisi diwygiedig yw atgyfnerthu a datblygu cyfleoedd cyfartal cyffredinol Dinasyddion Conwy. Mae'n seiliedig ar ddyletswyddau a gofynion deddfwriaethol newydd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i fwriad yw darparu proses gyson a chadarn ar gyfer gweithredu mewn modd dibynadwy, teg a chyfiawn mewn perthynas â'r asesiad cymhwysedd am gymorth â chludiant.

Bydd pobl sy'n cael eu hasesu fel rhai cymwys yn parhau i dderbyn cludiant, yn unol â'r angen a aseswyd. Bydd y rhai nad ydynt yn gymwys, yn cael eu cyfeirio at y dull teithio mwyaf priodol yn y Gymuned neu'n darparu cludiant eu hunain.

Mae hyn yn unol â'r rhesymeg dros ddeddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru, gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo Annibyniaeth, tra'n diogelu gwasanaethau'r dyfodol ac ystyried cynaliadwyedd mewn hinsawdd ariannol anodd ar gyfer y Sector Cyhoeddus.

20. Pa fesurau a ellid eu cynnwys i gryfhau'r polisi/arfer a meithrin perthnasau da a gweithredu cyfleoedd cyfartal? Mae'r polisi'n canolbwyntio ar gydraddoldeb drwy ddarparu fframwaith glir er mwyn ystyried amgylchiadau unigol. Ni fydd yr hyn sy'n addas ar gyfer un unigolyn yn addas i un arall oherwydd eu hamgylchiadau penodol.

21. Pa gamau allech chi eu cymryd i gyflawni'r un nod drwy ddull gwahanol?

Mae'r polisi yn seiliedig ar ein dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r broses asesu yn dilyn yr hyn sy'n ofynnol yn y Ddeddf. Os nad yw'r polisi'n cael ei gefnogi byddai pob ymarferydd yn dibynnu'n uniongyrchol ar ddarpariaethau a rheoliadau'r Ddeddf i gyflawni eu hasesiad.

CAM 6 – Cynllun Gweithredu

Amlinellwch isod y camau y byddwch yn eu cymryd i fwrw ymlaen â'ch cynnig. Gallai'r rhain gynnwys cyflawni gweithgarwch Ymgysylltu/Cynnwys, casglu data Cydraddoldeb lle nad yw hyn ar gael yn rhwydd i helpu gyda'r AEC hwn, cynnal dadansoddiad data o'r data a geir yn y dyfodol i fonitro effaith y polisi / arfer hwn yn barhaus, unrhyw gamau sydd angen i chi eu cymryd i sicrhau bod caffael yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol, unrhyw drefniadau sydd angen i chi eu rhoi ar waith i fonitro ac adolygu effaith y polisi / arfer hwn yn y dyfodol, ac yn y blaen.

Cam Gweithredu	Mesur Llwyddiant	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)
Camau i'w cymryd cyn y gellir cwblhau'r polisi/arfer				
Camau ar ôl cwblhau'r AEC a'r polisi / arfer				

<p>Sesiwn i godi ymwybyddiaeth / hyfforddi staff a fydd yn gweithredu'r polisi.</p>	<p>100% o bresenoldeb gan staff.</p> <p>Gostyngiad mewn ceisiadau am gefnogaeth gyda chlodiant.</p> <p>Darparu effeithlonrwydd</p> <p>Adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid mewn perthynas â gwell annibyniaeth</p>	<p>12 mis</p>	<p>Hyfforddiant SSD</p>	
<p>Polisi wedi'i rannu gyda defnyddwyr gwasanaeth ar yr adeg adolygu a chytuno ar y cynllun mewn perthynas â chefnogaeth gyda chlodiant yn y dyfodol</p>	<p>Fformat hawdd ei ddarllen yn cael ei ddatblygu i'w rannu gyda defnyddwyr gwasanaeth / gofalwyr ar adeg yr asesiad cychwynnol / adolygiad.</p> <p>Adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid mewn perthynas â gwell annibyniaeth</p>			

	<p>Gwasanaeth cludiant yn awr yn gallu ymateb i ymholiadau newydd am gymorth oherwydd bod y rhai sy'n derbyn y gwasanaeth ar hyn o bryd yn symud ymlaen i fod yn annibynnol</p> <p>Dim cwynion neu nifer cyfyngedig o gwynion</p> <p>Darparu effeithlonrwydd</p>			
Adborth gan ymarferwyr ynglŷn â gweithrediad a materion	12 mis			
Cysylltu'n agos â gwaith y Gwasanaeth Cludiant	Parhaus			

CAM 7 – Penderfyniad i Fwrw Ymlaen

22. Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu yng nghamau 1 - 5 uchod, nodwch ar y tabl isod a fedrwch chi fwrw ymlaen â'r polisi neu'r arfer ac os gallwch chi, ar ba sail?

(rhowch groes fel sy'n briodol X)

Penderfyniad		Cam Gweithredu
<input checked="" type="checkbox"/> Gellir	Parhau â'r polisi neu'r arfer ar ei ffurf bresennol	Cwblhau'r adain Monitro ac Adolygu (Cam 8) i sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd
<input type="checkbox"/> Gellir	Parhau â'r polisi neu'r arfer ond gydag addasiadau i'w wella	Cwblhau'r adrannau Cynllun Gweithredu a Monitro ac Adolygu (Camau 6 ac 8) i asesu'r effaith yn barhaus
<input type="checkbox"/> Gellir	Parhau â'r polisi neu'r arfer ond gydag addasiadau i ddileu unrhyw feysydd lle byddai effaith negyddol a nodwyd yng Ngham 5	Cwblhau Cynllun Gweithredu (Cam 6) i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle mae effaith negyddol a Monitro ac Adolygu (Cam 8) i asesu'r effaith yn barhaus
<input type="checkbox"/> Na ellir	Rhoi'r gorau i'r polisi neu'r arfer hwn gan nad yw'n bosibl mynd i'r afael â'r effaith negyddol, ac ystyried ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r materion	Cwblhau Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn deillio o roi'r gorau i'r polisi a delio â'r effaith negyddol a ddynodwyd

CAM 8 – Trefniadau ar gyfer Monitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae proses yr AEC yn un barhaus, ac nid yw'n dod i ben pan gytunir ar bolisi / arfer a phan gytunir ar AEC a'i weithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith polisiâu/arferion o ran cydraddoldeb yn barhaus i nodi a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno'r polisi neu'r arfer newydd hwn.

23. Amlinellwch pa drefniadau y byddwch yn eu gwneud i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r arfer hwn:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys ble bydd canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)
Effaith yn cael ei fonitro drwy baneli dyrannu cyllid pobl hŷn ac anableddau drwy holiaduron sicrwydd ansawdd adborth cwsmeriaid.	Blynyddol	Safonau Ansawdd	

CAM 9 - Cyhoeddi'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Trefnwch i'ch Pennaeth Gwasanaeth gytuno ar yr AEC ar ôl ei gwblhau, gweler y Polisi AEC yn ymwneud â chyhoeddi trefniadau cyhoeddi ac anfon copi yn ôl at y Swyddog AD a Chydraddoldeb.